CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN

Cynhelir y **Cyfarfod Blynyddol** ar Zoom
Nos Fawrth, Mehefin 15, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

AGENDA

www.cyngorllanfachreth.cymru

1. Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Dewis Swyddogion

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Peredur Jenkins
Is Gadeirydd: Meurig Ashton

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Peredur Jenkins, Meurig Ashton.

4. Datgan diddordeb.

Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 8.a.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 18, 2021

6. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 18, 2021

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (18/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher Mai 26, 2021 trwy Star Leaf. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod cynhaliwyd dydd ar Chwefror 3, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b Lythyr (19/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion Star Leaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (21/5/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III, Ganllwyd. Bydd y ffordd ar gau yn 2/6/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (24/5/2021) oddi wrth Cynfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am waith torri coed sy'n cael ei wneud yn Gallt Ffridd Goch, Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.
Anfonwyd llythyr (25/5/2021) i CNC yn rhoi gwybod rydym yn disgwyl i ohebiaeth fod yn Gymraeg a Saesneg.

d. Llythyr (24/5/2021) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud ag ymgynghoriad mae'r Adran yn ei wneud ar orchymyn gwarchod mannau cyhoeddus: rheoli cŵn. Mae holiadur i roi sylwadau ac maent ei angen cyn Mehefin 21, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (26/5/2021) oddi wrth Emlyn Roberts yn rhoi gwybod bod gwelediad i gyfeiriad Dolgellau o'r gyffordd ger Troedyrhiw, Rhydymain, yn cael ei amharu gan drampolîn a net o'i amgylch. Mae hon yn gyffordd sydd â phroblem gwelediad yn gyson, ac yn gyffordd sydd â llawer o ddefnydd arni gan deuluoedd lleol ac ysgol Aran Hall.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater (26/5/2021).

e. Llythyr (26/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Peredur Jenkins (31/5/2021).

ff. Llythyr (1/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd bydd Ffordd Ddi-ddosbarth sy'n mynd heibio Cae Ceirch, Brithdir ar gau ar 7/6/2021 ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae Morrison Utility Services angen gwneud gwaith o drosglwyddo gwasanaeth dŵr i brif beipen ddŵr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (7/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III sy'n mynd heibio Hen Ardd, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau yn 10/6/2021 ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/98D. Codi adeilad amaethyddol a tho dros storfa tail sych (Ailgyflwyniad). Esgairgawr, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (29/5/2021).

b. Llythyr (7/6/2021) yn rhoi gwybod mae recordiad o'r cyfarfod Gweminarau ar sianel YouTube yr Awdurdod; mae cyfeiriad yn y llythyr.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (29/5/2021) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn ymddiheuro ni chafodd ein sieciau rhodd eu cyflwyno i'r banc. Roedd hyn oherwydd problemau gyda chyfrifon banc. Maent hefyd yn ymddiheuro ni chawsom lythyr o ddiolch am y rhoddion ac roedd hyn oherwydd anhawster cael swyddogion i lenwi swyddi. Mae disgwyl bydd cyfrif clwb y banc yn ôl yn weithredol yn fuan a bydd llythyr o ddiolch am y rhoddion yn cael ei anfon inni yn fuan. Maent yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth i'r Clwb.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2021: £1,141.34.
Balans yn y banc ar 29/5/2021: £6,828.76. (29/5/2020: £4,139.34).

10. Archwilio

a. Anfonwyd y dogfennau i'r Archwilydd Mewnol (25/5/2021).

b. Derbyniwyd (1/6/2021) adroddiad yr Archwilydd Mewnol.
Materion codwyd o'r adroddiad yw ni chafwyd Cyfarfod Blynyddol fel mae angen ac roedd gwariant a ganiateir o dan bwerau eraill wedi cael eu hadnabod o dan wariant adran 137.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

c. Anfonwyd y dogfennau i'r Archwilydd Allanol (8/6/2021).

11. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

12. Unrhyw fater arall

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc